

**2011 Rhif 1394 (Cy. 165)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Tre'r-ddôl a Thre Taliesin,  
Ceredigion) (Terfynau Cyflymder  
30 mya a 40 mya) 2011**

*Wedi'i wneud*

*27 Mai 2011*

*Yn dod i rym*

*10 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Abergwaun i Fangor (A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2011, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tre'r-ddôl a Thre Taliesin, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2011 .

2.Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

3.Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog Llywodraeth leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Mai 2011

**GARETH MORGAN**

Pennaeth Gwasanaethau Abenigol Seilwaith  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 c.27; disodlwyd Adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (c.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **ATODLENNI**

Darnau o Gefnffordd yr A487 yn Nhre'r-ddôl a Thre Taliesin, yn Sir Ceredigion.

### **ATODLEN 1**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 33 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r C1031 i Bentre-bach hyd at bwynt 399 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Langynfelyn.

### **ATODLEN 2**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 225 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r C1031 i Bentre-bach hyd at bwynt 33 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r C1031 i Bentre-bach.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 399 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Langynfelyn hyd at bwynt 308 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r B4353 i Langynfelyn.